# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 9 IONAWR 2020 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## PRYSURDEB Y NADOLIG A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BOBL Y BIGWN



Mwynhau gweithgarwch Llan Llanast



Myfyrwyr Ysgol Glan Clwyd yn cefnogi elusen Achub y Plant

BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfgell erbyn HANNER DYDD, Dydd Gwener, Ionawr 24
neu os modd, drwy ebost i
ybigwn@hotmail.co.uk
Ar Werth
Chwefror 8



Ysgol Twm o'r Nant yn canu carolau



Gweithdy Llan Llanast

# Prysurdeb Llan Llanast





















## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
01745812570@uwclub.net
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

# Gair gan y Golygydd

Dydy Dydd Gwener y 13eg ddim y diwrnod gorau i feddwl am ysgrifennu colofn y golygydd, ofergoelus neu beidio, yn enwedig os ydy'r diwrnod arbennig hwnnw'n dilyn etholiad cyffredinol. Os oedd y felan arna i yn mynd i'm gwely, mi fedra i'ch sicrhau chi fod pethau'n waeth pan godais i. A doedd dim modd dianc rhag y dadansoddi, y pwyso a'r mesur, y taflu bai a'r ymffrostio. Roedd pawb wrthi ar y radio, y teledu, y cyfryngau cymdeithasol a'r byd a'i nain eisiau dweud ei bwt. Doedd hi ddim gwell ar y penwythnos chwaith oherwydd erbyn hynny roedd y papurau newydd wedi dal i fyny â'r holl halibalŵ.

Felly beth alla i ychwanegu at y drafodaeth a hithau'n fis Ionawr arnoch chi'n darllen hwn? Yr ateb syml? Dim. Heblaw'r hen ystrydebau fel "Daw eto haul ar fryn" a "Daliwch i gredu" neu "Gŵr dieithr yw yfory". Efallai fod dathlu'r Nadolig wedi rhoi cyfle i ni anghofio am sbel am y ddau B (cewch ddewis eich geiriau eich hun yma!) ond mae hwnnw drosodd bellach a'r Flwyddyn Newydd yn ymestyn fel dalen lân o'n blaenau. Ia wir, ysgwn i beth sydd o'n blaenau ni?

Ar nodyn mwy cadarnhaol, un peth sydd o'n blaenau ni yn Ninbych ydy Eisteddfod yr Urdd ac rydym yn edrych ymlaen ati. Ia, gallwn ddweud fod yr Eisteddfod eleni rwan. Mae arian dal i'w gasglu a threfniadau dal i'w gwneud. Bydd galw am stiwardiaid a gwirfoddolwyr i helpu ar wahanol stondinau, i redeg rhagbrofion ac wrth gwrs i roi croeso i Gymru gyfan i diroedd Kilford unwaith eto. Bydd y gweithgareddau'n prysuro o hyn i fis Mai felly plîs ceisiwch gefnogi hynny fedrwch chi.

Fel soniodd Morgan yn ei olygyddol mis diwethaf, mae gennym yr Ewros i edrych ymlaen atynt yn misoedd Mehefin a Gorffennaf a rhyfedd meddwl bod y tîm ar ei ffordd i Rasbrijam unwaith eto fel y gwnaeth C'mon Midffîld bymtheng mlynedd yn ôl. O'r hyn ydw i'n ei glywed dydy cyrraedd fan'no ddim y peth hawsa na'r rhata a dim ond Cymru, o wledydd Prydain, sy'n gorfod teithio pellteroedd i chwarae ei gemau. Dyna ni eto, yn gorfod mynd yr ail filltir.

Ac wrth i'r flwyddyn dynnu tua'i therfyn roedd yn rhaid i ni eto yn Ninbych ffarwelio efo rhai o hoelion wyth y dref. Mae yma yn y rhifyn hwn deyrngedau i dri a wnaeth gyfraniadau i wahanol sefydliadau yn y dref. Mae colli cymeriadau fel hyn yn gadael bylchau yn ein cymdeithas a does ond gobeithio bod eraill yn barod i gamu yn eu lle.

Yn y rhifyn hwn hefyd ceir apêl gan y Clwb Pêl-droed am wirfoddolwyr i helpu gyda'r clwb. Allwch chi helpu? Yn rhannol oherwydd cyfyngder amser mae'r rhifyn hwn wedi dibynnu'n arw ar ddatganiadau i'r wasg gan wahanol sefydliadau. Allwch chi gyfrannu pwt bob hyn a hyn? Mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

Mi orffennaf efo detholiad o "Ofuned Dechrau Blwyddyn" gan E Llwyd Williams, un o feirdd Penfro:-

Rho inni dirion Ionawr,
Oriau mwyn heb eira mawr,
Chwefror a goror gweryd
O do'r iâ'n barod i'r ŷd,
Mawrth ac Ebrill ebillaidd
Ac achles gwres wrth eu gwraidd,
Mai â'i haf, a Mehefin
A'r ias o'i greu ar ei sgrîn,
Gorffennaf â'i haf hefyd
Yn stôr i Awst ar ei hyd,
Medi yn drwm o ydau,
Hydref yn gwd i'r cnwd cnau,
Tachwedd heb gryglyd duchan,
Rhagfyr a myrr yn y man.

Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch.

Angharad Rhys

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

John ac Eiri Jones £10.00


**Diolch am eich cefnogaeth**

**Golygydd Mis Ionawr:**
**Dyfrig Berry**

## DYDDIADUR

**Cymdeithas Caledfryn**
**Ionawr 31ain**
'Llwyddiant yr ieir' gan Elfed Evans, Pentrecelyn.

## CYFARCHION



Pen-blwydd Hapus i Mari oedd yn ddwyflwydd ar Noswyl Nadolig ac i Ifan fydd yn 6 oed ar Ionawr 12fed.
Cariad mawr oddi wrth Mam a Dad a’r teulu i gyd. xx



Penblwydd hapus i Hari Gruffydd Jones yn 6 oed ar 31 Ionawr gan Nain a Taid Dinbych (John Geraint ac Eiri) Anti Nia, Yncl Sam ac Elen.

## Cowbois Rhos Botwnnog - Dyddiau Du, Dyddiau Gwyn

I ddathlu 10 mlynedd ers rhyddhau’r albwm Dyddiau Du, Dyddiau Gwyn, mae Cowbois Rhos Botwnnog ar daith o gwmpas theatrau Cymru gyda chasgliad o ganeuon hen a newydd. Bydd yr holl fand gwreiddiol oddi ar y record yn ymuno â’r brodyr i’w pherfformio yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys Branwen ac Osian Williams (Candelas, Blodau Papur, Siddi), Llŷr Pari (Serol Serol, Omaloma), ac Euron Jones (Maharishi, Gai Toms).

Bydd Cowbois Rhos Botwnnog yn ymweld â Theatr Twm o'r Nant, Dinbych ar 15 Chwefror cyn mynd yn eu blaenau i leoliadau ar draws Cymru. Mae tocynnau (£12/£10) ar gael o swyddfa Menter Iaith, 01745 812822 neu o Siop Clwyd.







# Y Capeli

## CAPEL Y BRWCWS

Dydd Sul, Tachwedd 24ain agorwyd yr Ysgol Sul gan Catrin Jones.

Croesawyd y Parch. Nesta Davies atom yn oedfa'r prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

Bore Sul, Rhagfyr 1af yn y Capel Mawr cynhaliwyd "Llan Llanast". Bu i Nerys Ann Roberts estyn croeso i bawb. Cawsom baned a mins pei a'r plant yn mwynhau diod oren a bisgedi. Yn dilyn cafwyd nifer o weithgareddau wedi ei selio ar y Nadolig a'r farn ar y diwedd oedd fod yr arbrawf yn llwyddiant ysgubol. Ar ran y Brwcws diolch i Rhian Cattell, Lis Edwards a Carolyn Thomas am baratoi y gweithgareddau ac i Enid Thomas a Gwawr Cordiner am helpu gyda'r baned.

Dydd Sul, Rhagfyr 8ed yng Nghapel y Fron cynhaliwyd gwasanaeth "Llith a Charol".

Dymuniadau gorau am Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Gyda phatrwm newydd o gydaddoli wedi'i sefydlu, y mae'n anorfod y cynhelir mwy o wasanaethau ar y cyd yn awr ac o ganlyniad llai o wasanaethau bellach yn yr eglwysi unigol.

Yn bendant, bu'n gam yn y cyfeiriad cywir, a phrofodd yr arbrawf o gynnal Llan Llanast yn Y Capel Mawr ar fore'r Sul cyntaf o Ragfyr yn llwyddiant ysgubol gyda chynulleidfa deilwng iawn.

Daeth oedolion a phlant o dair eglwys Bresbyteraidd y dref ynghyd ar gyfer sesiwn o ganu, actio a chrefftwaith ac, wrth gwrs, paned a mins pei.

Golygfa hyfryd oedd gweld yr oedolion yn cymysgu gyda'r plant i greu addurniadau Nadolig tra bod eraill wedi ffurfio'r hyn a ymdebygai i ddosbarth Ysgol Sul anffurfiol.

A hyn oll yn dileu unrhyw ansicrwydd ynglŷn â'r fath fenter.

Does ond gobeithio y gellir cynnal digwyddiad cyffelyb yn y dyfodol agos, ac y gellir denu mwy o deuluoedd ifainc atom.

Syniad y Gweinidog oedd y cyfan, a chanmolwn ef am ei weledigaeth.

Yn y Suliau a ragflaenodd hyn, Mr Dilwyn Jones oedd ein cennad yn yr oedfa hwyrol ar Dachwedd 3ydd. Croesawyd ef gan Mr Ifor John Jones, llywydd y mis. Mrs Cartrin Warren oedd yn cyfeilio.

Ar Dachwedd 17eg, cafwyd cwmni'r Parch. Eric Greene, o'r Bala, yn oedfa'r bore. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.

Braf oedd cael croesawu'r Parch. Nesta Davies yn ôl atom ar fore'r pedwerydd ar hugain o Dachwedd, a thrwy gyfrwng "powerpoint" cyflwynodd inni neges gyfoes iawn ar adeg arbennig yn ei bywyd. Y gyfeilyddes oedd Mrs Catrin Warren.

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mrs Ceinwen Jones ar Dachwedd 29ain yn 93 mlwydd oed. Bu'n flaenores yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd er 1992, yng Nghapel Seion yn gyntaf ac yna yn Y Capel Mawr. Yn wraig ddiwylliedig iawn, chwaraeodd ran flaenllaw ym mywyd ei chymuned b'le bynnag y bu'n byw, a hynny tu mewn a thu allan i'r eglwys.

Cynhaliwyd ei hangladd ar Ragfyr 7fed gyda'r Parch. Ddr Andras Iago, Y Parch. W.H. Pritchard a'r Parch. Hugh Pritchard yn gweinyddu yn y gwasanaeth cyhoeddus yn Y Capel Mawr. Yr organyddes oedd Mrs Catrin Warren.

Dilynwyd hyn gan wasanaeth preifat ar lan y bedd ym mynwent Eglwyswen.

Cydymdeimlwn â'r teulu a'i chyfeillion yn eu profedigaeth.

Yn yr un modd cydymdeimlwyd â Mr a Mrs Haydn Williams a'r teulu, Haydn wedi colli'i frawd.

# Y Cymdeithasau

## Clwb Gosod Blodau

D'oedd dim arddangosfa mis yma gan fod yr aelodau wedi bod yn Nant y Felin am ein cinio blynyddol, a phawb wedi mwynhau. Ar yr 7fed o fis Ionawr bydd cyfarfod blynyddol a mi fydd Mrs Wendy Grey Lloyd yn ymuno a ni gyda sgwrs a phaned wedyn.
Ar y pedwerydd o Chwefror bydd anddangosfa gan Alison Cooper o Salford, cyfarfod yn cychwyn am hanner awr wedi saith yn Capel Mawr. Croeso i bawb.

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Cymdeithas Caledfryn


John Elwyn Williams o'r Wyddgrug oedd gŵr gwadd mis Tachwedd a thestun ei sgwrs oedd 'Mab y Mynydd'. Magwyd Elwyn yn Rhiwlas ger Bangor ac mae'n cofio, yn blentyn, cyrchu'r defaid o'r mynydd ar gyfer eu cneifio ar fferm ei daid yn Llanllechid. Mae Elwyn erbyn hyn wedi dringo mynyddoedd o gwmpas y byd ond i Alaska yr aeth â ni yn ei sgwrs.



John Elwyn Williams ac Erfyl

Be wyddom am Alaska? Yn 1867 cytunodd Rwsia i werthu Alaska i'r Unol Daleithiau am $7.2 miliwn sef tua dwy sent yr acer. Dyma dalaith fwyaf yr U.D. gyda phoblogaeth o 735,720. Daw 25% o holl olew'r U.D. o Alaska gyda 88,000 o farilau o olew bob dydd yn cael eu cludo ar draws y wlad. Mae tua 100,000 o rewlifoedd yn Alaska sef 5% o arwynebedd y tir. Mae 8 parc cenedlaethol yno a Pharc Wrangell St.Elias yw'r mwyaf ac mae'n fwy na'r Swistir! Denali yw mynydd uchaf y wlad a mynydd uchaf yr U.D. yn 20,310 troedfedd – Mynydd McKinley oedd yr enw arno ar un adeg.

Ar y sgrin fawr gwelsom luniau o dirwedd Alaska yn cynnwys mynyddoedd a rhewlifoedd ac o fywyd gwyllt y wlad fel yr arth lwyd (grizzly), y mŵs a'r dyfrgi. Bu Elwyn a'i wraig Elen yn dringo Mynydd Healy ym Mharc Cenedlaethol Denali a'r 'Alpine Trail' sydd dros 4,000 troedfed. Hefyd buont yn cerdded ar rewlif Kennicott ym Mharc Cenedlaethol Wrangell St. Elias.



Elen ac Elwyn ar yr Alpine Trail

Cafwyd hanesion digri gan Elwyn am ei daith i Alaska, un hanesyn brawychus amdano'n hedfan dros fynydd uchel mewn awyren ysgafn a hanesyn dwys am y rhewlifoedd yn dadmer yn y wlad oherwydd cynhesu byd-eang. Mae hyn yn achosi gofid inni i gyd!!

Ar ôl gwrando ar ei brofiadau yn Alaska, aeth Elwyn â ni ar deithiau dringo i'r Swisdir, Ardal y Llynnoedd a'r Alban ble mae Elwyn wedi dringo pob mynydd dros 3,000 troedfedd, y Munros fel eu gelwir sef 283 mynydd i gyd, mewn 17 mlynedd. Dipyn o gamp!!

Diolchodd Erfyl am sgwrs ddifyr ac addysgiadol gan



Elwyn ar fynydd Flattop

ŵr mentrus a phenderfynol. Mae'r rhod wedi troi i Elwyn bellach wrth iddo gerdded y mynyddoedd gyda'i ŵyr 7 oed ar ôl i'w daid yn Llanllechid ei arwain ef i'r mynyddoedd, flynyddoedd yn ôl, pan oedd ef yn blentyn. Mae Elwyn yn fab y mynydd yng ngwir ystyr y gair!!

Croesawyd Geraint Williams o Henllan fel aelod newydd Cymdeithas Caledfryn.

PyBj
GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

## Y GYMDEITHAS GYMRAEG



Tom Williams, Ann Catrin Evans, Nancy Jones a Dilwyn Jones

Ar Nos Wener, Rhagfyr 6ed, cynhaliwyd cyfarfod olaf y Gymdeithas am 2019.
Dechreuwyd trwy goffau dau o is-lywyddion anrhydeddus y Gymdeithas a gollwyd yn ddiweddar sef R M (Bobi) Owen ac Elizabeth Lloyd. Cafwyd gair o deyrnged i Bobi gan Tom Williams, trysorydd y Gymdeithas, ac yna coffad i Mrs Lloyd gan Nancy Jones.
Yna, cafwyd gair gan yr ysgrifennydd, Dilwyn Jones, am y digwyddiadau tebygol ar y 12fed, 13eg a'r 14eg o Fehefin 2020 fydd yn nodi dauganmlwyddiant marwolaeth Thomas Jones o Ddinbych – mwy am hyn eto.
Croesawyd Alwena Jones Tre Ceiri yn ol i'r Gymdeithas wedi cryn egwyl.
Yna, cyflwynodd Dilwyn ein gwraig wadd sef Ann Catrin Evans, gwneuthurwraig coron Eisteddfod yr Urdd 2020 sy'n cael ei noddi gan y Gymdeithas.
Cafwyd, gan Ann Catrin, sgwrs hynod ddiddorol hefo sleidiau Powerpoint am ei bywyd a'i gwaith.
Diolchwyd iddi ac i bawb arall yn cynnwys Berwyn ac Olwen Roberts oedd yn gyfrifol am y baned.
Bydd ein cyfarfod nesaf am 7 yh ar Ionawr 10fed 2020 pan fydd Llinos Gerallt yn trafod sgriptio Pobol y Cwm.
Diolch am bob cefnogaeth yn 2019, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

*DILWYN JONES – YSG.*


Cynghorydd

cyngor sir ddinbych

**Mark John Young**



Dinbych Isaf

- Annibynnol

**S: 07825 912554**

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk


## Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych

Ar ddechrau'r cyfarfod talwyd teyrnged gan ein Cadeirydd, Richard Snelson, i'r diweddar annwyl Bobi Owen, hanesydd lleol tra gwybodus ac aelod selog o'n Cymdeithas Hanes. Cafodd ei anrhydeddu am ei gyfraniad i hanes lleol Dinbych gan Yr Orsedd, gan Gyngor Tref Dinbych a gan Brifysgol Bangor. Cyhoeddodd nifer o lyfrau gan gynnwys tair cyfrol o hen luniau o Ddinbych, ysgrifennodd erthyglau i gylchgronau hanes ac roedd yn siaradwr cyhoeddus heb ei ail. Un o'i brif drysorau oedd ei gasgliad o hen lythyrau gwreiddiol gan Gymry amlwg neu yn ymwneud â Dinbych. Fe fydd colled fawr ar ei ôl.
'Hanes tref Dinbych' oedd testun y cwis i'r aelodau yn ein cyfarfod yng Nghlwb Golff Dinbych a phwy well fel cwis-feistr na'r hanesydd lleol ac aelod o'n Cymdeithas Hanes, Clwyd Wynne. Mae Clwyd hefyd yn flaenllaw gydag Archif Cymunedol Dinbych ac ef yw awdur y llyfr 'North Wales Hospital, Denbigh 1842-1995.' Croesawyd Clwyd a Carol Wynne gan Richard Snelson.
Roedd y cwis yn un heriol dros ben ac yn un tra diddorol gan i ni ddysgu llawer am hanes y dref drwy'r canrifoedd. Roedd cael yr atebion ar y sgrin fawr ar ffurf llun neu gopi o dudalen o hen bapur newydd wedi ychwanegu at ein brwdfrydedd a'n diddordeb.
Dyma rai o'r cwestiynau heriol:-
1. Ble yn y dref y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 1882?
2.Pryd ffurfiwyd y tim rygbi cyntaf yn Ninbych?



3. Yn y 19g. roedd cynlluniau i adeiladu'r bedwaredd lein reilffordd o Ddinbych. I ble?

(atebion isod)

Er na chafodd yr un tîm farciau uchel, cafwyd noson llawn hwyl a chwerthin. Dysgodd yr aelodau lawer am hanes y dref!
Talwyd y diolchiadau gan Dennis Roberts. Diolchodd i Clwyd Wynne am noson mor ddifyr a hwyliog ac i Ceri Ellis, yr ysgrifennydd, ac i Chris Johnson, y trysorydd, am y trefniadau yn y Clwb Golff.
Atebion i'r cwestiynau uchod:-
1. Codwyd pafiliwn enfawr ar gyfer 6,500 o bobl o fewn waliau'r castell.
2. 1881 gyda thîm rygbi Dinbych yn curo tîm rygbi o'r Rhyl.
3. I Betws y Coed drwy neu wrth Henllan, Groes, Llansannan, Pandy Tudur ac ymuno â'r lein rhwng Betws y Coed a Llanrwst. Ni ddigwyddodd hyn!

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**

# Teyrnged i Ceinwen Jones



Mam, Nain, Ceinwen, Cin, Anti Cin, Anti Ceinwen a Mrs Ceinwen Jones. Beth bynnag oeddech yn ei galw, roedd y wên yn aros amdanoch.

Cafodd Mam ei geni yn Ionawr 1926, yr ail blentyn i Evan a Margaret Morris. Pan yn fis oed symudodd y teulu i Pennant Ucha, Nantglyn. Cafodd fagwraeth hapus ac yn mwynhau cerdded i'r ysgol bob dydd ac i'r capel ar y Sul. Hyd yn oed yn eneth ifanc roedd dysgu a deud ei hadnod yn bwysig gan ei pharatoi at ddyfodol o ddiddordeb mewn llyfrau a llefaru.

Ar ôl magwraeth hapus iawn yn Nantglyn, gadawodd mam yr ysgol yn 14 i helpu ei mam ac yna ar ôl symud i Cefn Du yn 16 oed, gweithiodd mewn nifer o gartrefi cyn cael cynnig swydd fel morwyn gyda Mr & Mrs Trefor Owen, Fferm Glan Morfa, Bodelwyddan ac roedd hwn yn gyfnod hapus iawn yn ei bywyd.

Yn y cyfnod yma cyfarfu â Dad drwy'r Clwb Ffermwyr Ieuanc yn Llansannan, ac mewn amser priodi a symud i fyw i Bryn Pistyll, Cefn Berain. Cafodd John ei eni yn Ionawr 1955 a dwy flynedd wedyn yn y mis Mai daeth Bryn.

Symud wedyn dros Moel Fodiar i gartrefu yn Groesffordd a mynychu Capel bach Gwynfa ble cafodd Llion a Fi ein bedyddio a chael ein hanner magu gan Tomi Jones a Mrs Jones, Graig Lwyd, cwpwl a oedd yn gefn mawr i'n teulu am flynyddoedd. Atgofion melys iawn sydd gennym i gyd am ein hamser yng Nghapel Gwynfa. Tra yn Groesffordd daeth diddordeb Mam mewn ysgrifennu penillion ac yn aml buodd ar ofyn i ysgrifennu penillion i briodas neu phen-blwydd arbennig. Ymunodd â Merched y Wawr Llansannan a mwynhau cymryd rhan mewn cystadlaethau noson lawen neu sgetsys doniol. Hefyd yn y cyfnod yma wnaethom ni, yr efeilliaid, a Mam ymuno efo Anti Nest, Penbryn Llan a'r genod i gynnal nosweithiau o gwmpas yr ardal. Anti Nest yn dreifio a pigo ni fyny, 8 yn y car ac o leia dwy gitâr. Mam yn arwain ac Anti Nest yn cyfeilio a ni, y plant, yn ymuno yn y canu, adrodd ac ambell i sgets. Un o uchafbwyntiau'r nosweithiau oedd Llion a fi yn canu geiriau mam i'r dôn Yellow Submarine wedi'n gwisgo fel Pinky a Perky.


Fe symudodd y teulu i Fferm Foxhall yn nechrau'r 70au, ac yn gweld bwlch yn y pentref i ferched gymdeithasu yn y Gymraeg, mi fentrodd Mam a Gwen Maes y Groes sefydlu cangen Merched y Wawr. Eto fyth roedd hi ar waith yn ysgrifennu sgriptiau i ddeialogau, caneuon actol a sgetsys. A bu llwyddiant mawr i'r gangen drwy Gymru ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd Mam hefyd wrth ei bodd yn dysgu unigolion a phartïon adrodd ffermwyr ifanc. Bu ynghlwm â chlybiau Llannefydd a Nantglyn am flynyddoedd ac wrth ei bodd yng nghwmni'r ieuenctid. Roedd hefyd ar y pwyllgor cyntaf gyda Rhiannon Parry, Peter Smith ac eraill i sefydlu papur bro i'r ardal, sef 'Y Gadlas' a mwynhaodd pob elfen o weithio i gael y papur misol i'w wely. Yn y blynyddoedd diwethaf 'ma roedd Y Gadlas yn bwysig iawn iddi. Byddai'n edrych ymlaen i'r papur ddod drwy'r drws yn fisol i ddal i fyny am newyddion o'r pentrefi cyfagos a hanes am ein teulu estynedig a ffrindiau.

Tua diwedd y 70au bu mam yn gwirfoddoli yn y Clwb Mind lleol yn Ninbych. Eto bu'n weithgar iawn wrth drefnu digwyddiadau, gweithgareddau a theithiau a chefnogi'r aelodau a oedd yn mynychu.

Ymddeol a symud i Ddinbych yn 1986 a chartrefu yn Y Bryn, Accar Y Forwyn ymysg cymdogion werth chweil. Dod yn aelodau yng Nghapel Seion ag yn fuan iawn Mam yn cael ei hethol yn flaenores. Roedd Capel Seion a'i chyd-aelodau yn agos iawn at ei chalon. Roedd yn fraint ganddi fod yn ymddiriedolwr ac ar y pwyllgor gwaith gyda'r Parch W H Pritchard i adnewyddu'r Capel yn Ganolfan i'r gymuned. Fe gychwynnodd Clwb Penstryd yng Nghanolfan Seion i ledaenu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg i'r henoed yn nhop y dre a bu'n hynod o lewyrchus gan ddenu llawer o Gymry ail iaith i'w plith. Wrth gwrs dim band un dyn oedd sefydlu'r Clwb, cafodd Mam gefnogaeth gref gan Gwyneth Wynne, Gwyneth Jones, Ann Alice ac Eurwen a fyse ne ddim te i neb, oni bai am Rosa. Roedd Mam ar y pryd dal yn mynychu Merched y Wawr Henllan, a sioc o'r mwyaf gafodd mewn un cyfarfod wrth weld Alwyn Humphreys o'r rhaglen Wedi 3, yn cerdded ati i gyflwyno plât Halen y Ddaear, wedi cael ei henwebu gan ei chyd aelodau am ei gwaith yn y gangen.

Ar ol colli dad yn y mileniwm a hithau yn mynd yn hŷn, penderfynodd symud i Ffordd Las, ble roedd y syrjyri a'r siopau o fewn tafliad carreg iddi. Yn union fel Accar y Forwyn bu'r cyfeillgarwch a wnaeth gyda'i chymdogion yma yr un mor glos ac wedi para tan heddiw. Hi a Betty drws nesa yn ffonio ei gilydd bob nos a bore (i wneud yn siwr bod naill a'r llall 'di codi).

Bu colli ei hunig chwaer Menna a'i brawd Bob yn negawd cynta'r mileniwm yn ergyd drom i Mam. Bu'n driw iawn i Menna a hithau wedi dioddef o anhwylder ers blynyddoedd ond bu Menna hefyd yn gefn mawr iddi hithau trwy dreialon

bywyd. Priododd ei brawd bach, sef Yncl Bob y ddynas *ideal*, sef Anti Joan a oedd berchen ar nid un ond dwy siop ddillad merched yn Amington a Tamworth. Bu Mam yn ei helfen yn prynu dillad o'r siopau a gwariodd Mam a Dad amseroedd hapus iawn yn nghwmni y ddau a theulu estynedig Joan. Braf iawn ar hyd y blynyddoedd oedd galwadau rheolaidd Yncl John a hyfryd oedd medru dod â'r ddau at ei gilydd pan stopiodd Yncl John ddrefio, i hel atgofion am eu magwraeth a'u plentyndod. Mae gennyf ambell i recordiad nes i dynnu heb iddynt ddallt a byddaf yn eu trysori.

Wrth i'w hiechyd ddirywio, bu ei hymweliad wsnosol â Chlwb Waengoleugoed yn donic iddi ac yn ail gyfle iddi gydio yn 'y pethe'. Bu'n cael ei chludo yn saff pob dydd Iau gan Gareth ac wedi cyrraedd yn derbyn croeso bendigedig gan y gwirfoddolwyr. Mae gofal a charedigrwydd y gwirfoddolwyr at bawb yno yn brawf o lwyddiant y Clwb. Diolch o galon ichi.

Fel rydych wedi clywed, roedd gan mam nifer o ffrindiau o bob cefndir, sy'n dangos ei ffyddlondeb a'i natur garedig. Yn yr un modd, rydym mor ddiolchgar fel teulu i Nesta, Gaye ac Annwen. Nid oedd diwedd i'w hymrwymiad a'u cyfeillgarwch ac roedd edrych ymlaen at eu hymweliadau wythnosol yn gwella lles ac ansawdd bywyd mam heb os.

Ond er bod ganddi feddwl y byd o'r tair, cannwyll ei llygaid oedd ei hwyrion a'i hwyresau. O'r hynaf i'r ieuengaf – pa bynnag un fyddai'n ymweld, byddent yn sicr o gael 'y wên' a sws. Roedd Nain mor falch o bob un ohonynt a gan fod ganddi agwedd fodern, gallai uniaethu â'u bywydau prysur. Mari ac Elisabeth y rhai sy'n hoff o deithio; Gareth y canwr a'r ffarmwr; Ceri Wyn y Pantomime Princess a Sam a Dan y rygbi fanatics. Roedd Nain yn rhan o'u bywydau am dros 28 mlynedd ac roedd wrth ei bodd ac yn falch iawn o'u cyflawniadau. Mari oedd babi'r teulu nes geni Maisie a Cassie. Ynghyd â Matthew roeddent yn llawn cariad at Nain a bob amser yn dod ag arteffact neu lun iddi o'r ysgol. Roedd y merched bach yn enwedig yn dod â chymaint o hapusrwydd iddi, yn enwedig ym mhennod olaf ei bywyd.

Fel plant roeddem mor hapus bod Mam wedi mynd i Dolwen am seibiant a phenderfynu aros yno yn barhaol. Mae'r gofal sydd yno yn arbennig, ac er mai dim ond am 2 fis roedd hi yno, roedd yn rhoi tawelwch meddwl i ni nad oedd ar ei phen ei hun. Tra roedd hi yno, bu'n gwylio bron pob gêm o Gwpan Rygbi'r Byd yn y boreau, ac roedd snwcer yn ffefryn hefyd.

Wrth ysgrifennu y deyrnged yma, sylweddolais gymaint o bobl roedd Mam wedi'u cyffwrdd mewn gwahanol ffyrdd ar hyd ei hoes –

bydd hiraeth ar ôl mam, chwaer, nain, hen nain a ffrind arbennig iawn. Diolch amdani.

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

**DBP**
**Home Improvements N.Wales**

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 818849**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**



**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Teyrnged i Dai Bryn gan Clwyd Wynne

Bydd yn anodd iawn crynhoi hanes bywyd Dai Bryn yn y deyrnged hon. Er ei holl anhwylderau a thrafferthion fe gafodd fywyd llawn iawn. Roedd yn hogyn Dinbech go iawn ac yn ymwneud â chymaint yn y dref.

Treuliodd ei ddyddiau cynnar yn Maes y Coed, Dinbych gyda'i rieni a'i ddau frawd Bobby a Merfyn tan i'w dad, Bob Hugh, oedd yn swyddog tân ac yna'i fam farw'n ddisymwth pan oedd o tua 11 oed. Cafodd ei wahanu oddi wrth ei frodyr a symud i fyw at deulu yn Fferm Crwcwd, Llanrhaeadr. Aeth o Ysgol Frongoch i'r Ysgol Ganol ac yno mwynheuai hanes a chwaraeon, yn enwedig pêl-droed. Roedd yn gôl-geidwad da a chwaraeai i Lanrhaeadr a Dinbych. Wedi gorffen ysgol cafodd ei berswadio gan un o staff Ysbyty Gogledd Cymru i geisio am waith yn y gegin er mwyn iddo fedru chwarae dros yr ysbyty. Wedi dechrau sigledig yn y gegin awgrymodd y Swyddog Arlwyo y dylai geisio am swydd gyda'r staff nyrsio ac yn ôl Dai dyma'r unig achos o berson yn cychwyn ar y gwaelod a gweithio'i ffordd lawr. Ond yn sicr nid felly y bu gan iddo gymryd at nyrsio a c roedd ganddo ffordd dda gyda'r cleifion. Roedd yn herio'r drefn ac ni allai ddioddef annhegwch. Nid oedd yn un i dderbyn y status quo a gwnai yr hyn allai i wella pethau. Roedd yn ffraeth ei dafod, a doedd hynny ddim bob tro'n plesio'r rhai mewn awdurdod.

Cyfarfu ei gymar oes Ros pan ddaeth hi a'i ffrind Mari i weithio yn Llangwyfan. Roedden nhw yn y Crown ac wedi colli'r bws olaf cawsant bas yn ôl yn mini-van Eddie ac mae'r gweddill yn hanes. Fe briodon yn 1964 , yr un diwrnod ag y pasiodd ei arholiadau terfynol. Gwnaeth ei hyfforddiant nyrsio cyffredinol yn Llandudno ac wedi dychwelyd cafodd ei ddyrchafu'n Brif Weinydd Nyrsio, yna'n Swyddog Nyrsio gan ddewis gweithio ar y wardiau mwyaf heriol.

Roedd yn bwrw'i hun yn llwyr i fywyd cymdeithasol yr ysbyty ac ar bwyllgor y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, yn ymwneud â'r tîm pêl-droed ac yn un helpodd i sefydlu'r tîm rygbi. Mwynheuai'r dawnsfeydd a'r sioeau comedi a helpodd i sefydlu clwb Treferian. Roedd yn byw bywyd i'r eithaf ond bu'n rhaid iddo ymddeol yn gynnar, ac yntau ond yn ei bedwardegau, oherwydd problemau iechyd.

Byddai hyn wedi llorio llawer un ond nid Dai Bryn. Fe newidiodd ei ffordd o fyw ac yn raddol brwydro'i ffordd yn ôl a magu diddordeb mewn pethau newydd. Gweithiodd yn galed ar gart achau ei deulu ac roedd yn hynod falch ei fod yn perthyn o bell i Robert Jones, un o sylfaenwyr Ysbyty Gobowen. Ymddengys ei fod yn perthyn i Ddinbych gyfan ar adegau ac mae wedi gadael etifeddiaeth werthfawr i'w deulu. Ymunodd â ni yng Nghymdeithas Hanes Ysbyty Gogledd Cymru lle y treuliom oriau lawer yn darganfod hanes a chyfrinachau'r sefydliad hwnnw. Daeth yn un o sylfaenwyr Amgueddfa Dinbych gan wasanaethau ar y bwrdd am flynyddoedd ac fe ffurfiom grŵp Archifau Cymuned Dinbych ac roedd yn aelod gwybodus a thriw o hwnnw.

Roedd rygbi yn chwarae rhan fawr yn ei fywyd ac wedi uno dau glwb yn y dref daeth yn Lywydd Clwb Rygbi Dinbych. O oed cynnar roedd cerddoriaeth yn bwysig iddo. Fel plentyn roedd yn aelod o gôr Santes Fair a Dewi Sant a mynnai mai'r 2/= yr wythnos oedd yr atyniad. Bu'n 'roadie' i'r band lleol y "Stringbeats" yn y 60au ac fe gai ganu'n achlysurol. Roedd yn un o aelodau cyntaf Côr Meibion Dinbych yn 1995 ac yn ffyddlon a gweithgar tan iddo orfod ymddeol ychydig flynyddoedd yn ôl oherwydd ei iechyd. Pan ymwelodd y côr â Phlas Eleri ychydig wythnosau yn ôl, roedd ar ben ei ddigon.

Yn olaf rhaid sôn am ei deulu fu'n gymaint o gefn a mwynhad iddo. Ei gariad at Ros, eu plant Nicola a Sean a'i wyrion a'i wyresau oedd conglfaen ei fywyd. Gallai Dai Bryn fod yn un dadleuol, pryfoclyd a heriol ar adegau ond bydd rhan fwyaf yn ei gofio fel un hwyliog, cymdeithasgar, ffyddlon, ymroddgar, diddorol, cwpan hanner llawn, llawn bywyd, cryf a dewr. Parhaodd i wneud cyfraniad mawr i dref Dinbych, y dref yr oedd mor falch ohoni.




SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431
Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr **Y Bigwn**! Wrth daro golwg nôl ar 2019, rhaid llongyfarch gwirfoddolwyr a chefnogwyr Amgueddfa Gwefr heb Wifrau am flwyddyn brysur a llwyddiannus. Mae ehangu'r oriau agor wedi galluogi mwy o ymwelwyr i alw draw ac mae'r niferoedd sy'n mynychu'r darlithiau misol ar nos Wener wedi cynyddu yn sylweddol. Mae'r Boreau Crefftau i blant (ac oedolion) yn mynd o nerth i nerth ac mae'r Boreau Coffi bob tri mis wedi hen sefydlu erbyn hyn. Mae 'na fwy o alw ar ein siaradwyr i fynd allan i ymweld â grwpiau cymunedol o gwmpas Gogledd Cymru, gan deithio mor bell ag Ynys Môn a Chilgwri. Yn aml, mae'r grwpiau hyn wedyn yn trefnu taith i'r Amgueddfa i gael gweld yr arddangosfa. Diolch i bawb am eu hymdrechion a'u hymroddiad.

Derbyniom nifer o arddangosion yn ystod y flwyddyn hefyd a diolchwn i bawb am eu haelioni. Y Radio Commodore de Luxe Supersonic a gafodd ei gynhyrchu yn Zimbabwe yn 1980 ac a ddefnyddiwyd i wrando ar Wasanaeth Byd y BBC o'r wlad honno. Derbyniwr Band Byd Sony ICF-SW7600 ynghyd â'r bocs gwreiddiol a'r cyfarwyddiadau. Seinydd hi-fi domestig Tannoy modern sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i wneud cymhariaeth â'r Voigt Corner Horn o 1939. Llawlyfr 1930 y BBC a 'Book of Practical Television' o 1935 sy'n cynnwys llawer o wybodaeth dechnegol am deledu'r cyfnod yn ogystal â chyfarwyddiadau ar sut i adeiladu eich teledu eich hun.

Wrth edrych ymlaen i 2020, nodwn fod yr Amgueddfa ar agor bob dydd Gwener, 11.00-15.00, a dydd Sadwrn cyntaf pob mis yn ystod y gaeaf. Croeso i unrhyw un alw am baned (a chacen weithiau) – mae nifer o bobl yn gwneud yn rheolaidd! Os nad ydy'r adegau yna yn gyfleus, mae'n bosib trefnu ymweliad ar unrhyw adeg arall wrth gysylltu â gwybod@gwefrhebwifrau.org.uk

Cynhelir ein cyfres ddarlithiau ar nos Wener am 7 o'r gloch, yn yr Amgueddfa:

Ionawr 17eg - bydd David Crawford yn siarad am "Y Transistor" ar Noson y Curadur.

Chwefror 21ain - bydd John Barr yn siarad am "Adeiladu Twnel Conwy".

Mawrth 20fed - bydd Dr. Hywel Watkin yn cyflwyno Darlith Flynyddol David Edward Hughes, ac yn siarad am "Humphrey Llwyd y Cartograffwr o Foxhall".

Ebrill 3ydd - bydd Mike Farnworth yn siarad am "Ffynhonnau sanctaidd Cymru – cyswllt byw â'r gorffennol paganaidd".

Mai'r 15fed - bydd Alison Bromley yn siarad ar "Ymchwilio i Hanes eich Teulu".

Mehefin 19eg - bydd Eurig Jones yn siarad am "Ein Harfordir Gwyllt".

Croeso cynnes i bawb!



Bore Coffi Rhagfyr




Y Radio Commodore de Luxe Supersonic




## Atebion Rhagfyr 2019

**Ar Draws :**
8. Trotiwr
9. Aiatola
10. Bachgendod
11. Plwyf
12. Tombola
13. Glasddydd
14. Gwnïo
16. Thus
18. Theatr
20. Anffodus
23. Gwybeta
26. Anaml
27. Offerynnol
28. Economi
29. Iridiwm

**I Lawr :**
1. Gorchymyn
2. Cicero
3. Brodwaith
4. Nawdeg
5. Campwaith
6. Nodwydd
7. Canfyddwr
8. Tebot
14. Gramadeg
15. Oedolion
17. Sigledig
19. Acennair
21. Fflagon
22. Sgorio
24. Ynysig
25. Adlam

## CROESAIR IONAWR 2020



**Ar Draws :**
6. Gwellhad
8. Côt law
10. Helbul
11. Cyfansoddwr penillion o bum llinell
12. Wedi ei wneud o haenau o ffabrig a phadin
13. Planhigyn â blodau persawrus
14. Ymochel
17. Llinell ar fap yn dangos tymheredd
20. Llawr lle tân
22. Hoff o sgwrsio
25. Eitem atodol o wisg
26. Elfen, rhif 6 yn y tabl cyfnodol
27. Cytûn
28. Diasbedain

**I Lawr :**
1. Digyfnewid
2. Torf
3. Paratoi at arholiad
4. Yn haeddu clôd
5. Cadwaf mewn côf
7. Anhysbys
9. Un sy'n dwyn achos mewn llys
15. Nofel, tafarn a phapur bro (1,6)
16. Heb ddawn
18. Dramatig
19. Esgyrn sy'n amddiffyn yr ysgyfaint a'r galon
21. Pabell
23. Nid asid mo hwn
24. Gwneud yn uned

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

# Hen ffeiliau ysbyty a ffeithiau wedi'u harchifo ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol



Mae prosiect mawr i gatalogio cofnodion hen Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych bellach wedi ei gwblhau gan wneud y casgliad yn fwy hygyrch i'r gymuned ehangach. Cydlynwyd y prosiect dwy flynedd, o'r enw Datgloi'r Seilam, gan Wasanaeth Archifau Cyngor Sir Ddinbych a'i ariannu gan grant o £130,000 gan Wellcome (elusen ymchwil fiomeddygol), gan ein galluogi i gyflogi tri staff i gatalogio, cadw a chreu catalog ar-lein ar gyfer y casgliad unigryw hwn. yn ddiweddar mynychodd dros 60 o bobl sgwrs ac arddangosfa i drafod rhai o'r prif ganfyddiadau ac i gael cipolwg diddorol ar fywyd ar safle'r ysbyty. Roedd y siaradwyr yn cynnwys staff Archifau Sir Ddinbych a siaradodd am eu rôl; yr Athro David Healy sy'n Athro Seiciatreg ym Mhrifysgol Bangor a siaradodd am ddefnyddio'r casgliad o safbwynt academaidd a sut y gellir ei ddefnyddio i gymharu'r gorffennol â'r presennol a Gareth Roberts o Gyngor Sir Ddinbych a siaradodd am yr ymdrechion i ddiogelu a rhagflaenu'r adeilad a'r frwydr hirfaith i fod yn berchen ar y safle yn gyfreithiol.

Rhan o'r prosiect oedd catalogio cyfanswm o 30,000 o ffeiliau achos cleifion a llenwyd 1,320 o flychau archif. Mae ffeiliau cleifion yn cynnwys manylion derbyniadau a dyddiadau rhyddhau, cyflyrau a ddioddefwyd, nifer y cleifion, nodiadau clinigol, diagnosis a thriniaeth. Mae mathau eraill o ddogfennau a gatalogio'n cynnwys dogfennau gweinyddol, gohebiaeth am gau'r ysbyty, adroddiadau blynyddol, cofnodion staff, llyfrau cyflogau, dogfennau hyfforddi a chofnodion o drafodaethau gydag undebau llafur am y diwydiant Gweithredu. Mae'r cofnodion hefyd yn adlewyrchu bywyd cymdeithasol a hamdden yn yr ysbyty, gyda manylion clybiau a chymdeithasau, corau, gweithgareddau chwaraeon (gan gynnwys gemau pêl-droed a rygbi). Cafwyd manylion hefyd am raglen gyfnewid rhwng safle Dinbych ac ysbytai Lloegr. Roedd y wybodaeth yn cynnwys manylion am dripiau a drefnwyd ar gyfer disgyblion cyfnewid, gan gynnwys ymweliad ag Eryri ac â Sw Caer. Dywedodd Rhian Evans swyddog cefnogi prosiect o Archifau Sir Ddinbych: "Mae wedi bod yn anrhydedd go iawn i weithio ar y prosiect yma.

"Roedd Ysbyty Gogledd Cymru yn rhan bwysig dros ben o'r gymuned leol a bydd ein prosiect yn adnodd amhrisiadwy i academia tra'n gwneud y deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn fwy hygyrch i'r ymchwilydd defnyddwyr cyffredinol anacademaidd. Mae'r casgliad yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar iechyd meddwl, i'r proffesiwn iechyd, y gymuned leol, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a sut mae trafodaethau a thriniaethau yn ymwneud ag iechyd meddwl wedi datblygu dros y blynyddoedd.

"Rydym yn falch iawn o lansio'r catalog ar-lein newydd a'n hadnodd digidol newydd sbon, sy'n cynnwys adnoddau i helpu ymchwilwyr lywio a defnyddio'r casgliad".

I gael mynediad i'r wefan, ewch i:

archifau.sirddinbych.gov.uk



CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Grŵp Cynefin yn cyhoeddi pedwar aelod newydd i'r bwrdd




Mae cymdeithas dai flaenllaw wedi cadarnhau pedwar aelod newydd i'w bwrdd rheoli.

Mae Grŵp Cynefin, wedi penodi **Geraint George, Jane Lewis, Mike Corfield** a **Tony Jones**i'r bwrdd rheoli o 10 aelod sy'n gyfrifol am bob agwedd o weithgareddau'r gymdeithas. Y bwrdd sy'n cynnig cyfarwyddyd ar faterion y gymdeithas yn unol â'i hamcanion a'i chanllawiau.

Grŵp Cynefin, yw'r brif gymdeithas dai ar gyfer gogledd a chanolbarth Cymru, ac mae'n rheoli tua 4,800 o gartrefi.

Mae Mike Corfield yn ymuno â Grŵp Cynefin gyda mwy na 30 mlynedd o brofiad yn y sector tai cymdeithasol a dywedodd ei fod o'r farn mai dull eang y sefydliad o weithredu oedd "yr union beth y mae angen i'r sector fod yn ei wneud."

"Fel rhywun sydd â chefndir llywodraethu, mae Grŵp Cynefin yn sefydliad rhagorol yn fy marn i.

"Maen nhw'n ymwneud ag ystod eang o gefnogaeth a datblygu cymunedol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r busnes craidd ac roedd hyn yn ddeniadol iawn i mi. Dwi'n meddwl y dylai mwy o gymdeithasau tai wneud yr un peth.

"Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda Grŵp Cynefin."

Dywedodd Tony Jones, a anwyd yn Wrecsam, fod y cyfle i roi rhywbeth yn ôl i gwmni o Gymru wedi profi i fod yn ffactor pwysig yn ei benderfyniad i ymuno â'r bwrdd.

Meddai: "Dwi wedi bod yn ymwneud â thai cymdeithasol ers 15 mlynedd mewn rolau amrywiol ac wedi bod yn awyddus i ymuno â bwrdd.

"Dwi'n teimlo ei bod hi'n hen bryd i mi roi rhywfaint o'r wybodaeth dwi wedi'i gasglu dros y blynyddoedd yn ôl i sefydliad Cymreig. Dwi'n edrych ymlaen at gynnig mewnwelediad i weithrediadau strategol, agwedd dwi'n ei fwynhau o fewn y sector. Mae ystod amrywiol o agweddau gwaith Grŵp Cynefin yn ddiddorol a gallaf gynnig profiad o fewn gwahanol feysydd."

Ar ôl mwy nag 20 mlynedd mewn cyllid, dywedodd Jane Lewis ei bod yn teimlo y byddai ei sgiliau yn y sector preifat yn gallu cael eu trosglwyddo i Grŵp Cynefin.

Meddai: "Ar ôl cymryd ychydig o amser allan o fy rôl ddiwethaf, ro'n i'n gallu gwneud pethau eraill gyda fy amser.

"Hoffais ddelwedd Grŵp Cynefin yn fawr ac roedd yr agwedd o gynnwys y gymuned gyfan yn eu gwaith yn atyniadol. Roeddwn yn teimlo bod gen i'r sgiliau i'w cynnig i helpu i wella hynny, yn ogystal â chael rhywbeth yn ôl hefyd."

Treuliodd Geraint George fwy na 25 mlynedd yng Nghyngor Gwynedd ar ôl gweithio yn y sector gwirfoddol. Dywedodd ei fod yn "awyddus i rannu ei sgiliau a'i brofiad" gyda'r gymuned yn ei rôl newydd.

"Ymunais â bwrdd Canllaw a ro'n i wir yn ei fwynhau, yn ei weld yn werthfawr, ac mae gan Grŵp Cynefin enw da am ei waith ym maes lles cymunedol," meddai.


"Ro'n i'n awyddus i roi rhywbeth yn ôl ac o fy safbwynt i, mae Grŵp Cynefin yn gwneud cymaint o waith pwysig mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru, i unigolion ym mhob ardal."

Dywedodd **Shan Lloyd Williams**, Prif Weithredwr Grŵp Cynefin: "Dwi'n falch o groesawu aelodau newydd ein bwrdd, bydd eu cyfoeth o brofiad ar y cyd a'u cefndiroedd amrywiol yn cryfhau ystod eang o sgiliau a galluoedd ein bwrdd."

Yn ôl **Dafydd Lewis**, Cadeirydd Grŵp Cynefin: "Dwi'n ymfalchïo yn y ffaith bod Geraint, Mike, Tony a Jane wedi ymuno â'r bwrdd. Mae'r apwyntiadau yma'n parhau i gryfhau arweinyddiaeth profiadol Grŵp Cynefin a bydd o gymorth wrth i'r cwmni edrych tua'r dyfodol."



# Plant a chyn-chwarelwyr yn rhannu straeon i lansio Diwrnod y Llyfr 2020



Bu plant ysgol o ogledd Cymru yn cymryd rhan mewn prynhawn o rannu straeon traddodiadol gyda'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd a grŵp o gyn-chwarelwyr lleol, fel rhan o ddigwyddiad arbennig i lansio Diwrnod y Llyfr 2020.

Ddydd Llun, 2 Rhagfyr, ymunodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi yn Neiniolen â'r awdur a'r cyhoeddwr am stori wrth y tân o'i lyfr newydd *Stori Cymru – Iaith a Gwaith*, yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis.

Llyfr Myrddin yw'r llyfr £1 Cymraeg cyntaf i gael ei gyhoeddi ar gyfer Diwrnod y Llyfr 2020, ac mae'n adrodd hanes Cymru a gwaith ei phobl drwy stori a chân.

Mae Ysgol Gwaun Gynfi wedi'i lleoli yng nghanol ardal chwareli llechi a mwyngloddio hanesyddol y gogledd, diwydiant sydd â'i wreiddiau yn yr ardal ers cyfnod y Rhufeiniaid.

Tyfodd y gwaith yn aruthrol o gyflym yn ystod y Chwyldro Diwydiannol; ar un adeg, chwareli Dinorwig a'r Penrhyn oedd y rhai mwyaf yn y byd.

Ar ei anterth, llechi oedd i gyfrif am hanner incwm y gogledd, ond ar ddechrau'r ugeinfed ganrif dechreuodd y diwydiant ddirywio a gwelwyd streiciau ac anghydfod wedi hynny. Cafodd effaith y diwydiant ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru ei chydnabod yn dilyn enwebiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig am statws Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn 2018.

Mae *Stori Cymru – Iaith a Gwaith* yn dathlu gorffennol Cymru fel y genedl ddiwydiannol gyntaf yn y byd, tra bod y straeon hefyd yn cydnabod beth oedd effaith hynny ar ei phobl, sef llafur caled, dioddefaint a damweiniau.

Ymunodd cyn-chwarelwyr o safle Dinorwig – llawer ohonyn nhw bellach yn eu hwythdegau a'u nawdegau – â'r plant a Myrddin ap Dafydd yn y digwyddiad, i rannu eu straeon a'u profiadau o weithio yng nghanol gorffennol diwydiannol Gwynedd.

Dywedodd Gwynfor Williams, 90 oed: "Dechreuais weithio yn y chwarel ym 1945 pan oeddwn i ddim ond yn 16 oed. Roedd yn waith caled, ond mae gen i lawer o atgofion melys o'r amser a dreuliais yno.

"Rwyf wedi mwynhau rhannu fy straeon gyda'r plant heddiw, a thrwy wneud hynny, mae'n golygu na fydd y straeon am weithio yn y chwareli byth yn marw; bydd y cenedlaethau nesaf yn eu cadw'n fyw."

Wrth siarad am y digwyddiad, meddai Myrddin ap Dafydd, a ddaeth yn Archdderwydd Cymru yn 2018: "Mae tirwedd, iaith, treftadaeth a hanes i gyd wedi'u cydblethu yng Nghymru, ac mae'r llyfr yma'n ddathliad o hynny. Mae ein tirwedd ddramatig a'r stori mae'n ei hadrodd o'n gorffennol yn ein hatgoffa'n ddyddiol o'n hanes unigryw – hanes sy'n anodd ar adegau. 'Mewn undeb mae nerth' ydy un o'n dywediadau mwyaf angerddol ni gan ein bod wedi dioddef efo'n gilydd fel cenedl.

"Mae pobl fy nghenhedlaeth i yn holi'n aml pam na wnaethon ni ddysgu am y straeon yma yn yr ysgol, felly mae'n wych gweld plant yma yn yr Amgueddfa Lechi heddiw yn cymryd rhan yn straeon eu gorffennol ac yn deall sut mae'r hanes hwnnw wedi creu yr ardal fel y mae hi erbyn heddiw."

Mae Diwrnod y Llyfr yn ddathliad byd-eang, ac mae dros 100 o wledydd ar draws y byd yn ei ddathlu drwy hyrwyddo manteision darllen i bobl o bob oed.

Yn ôl ymchwil, gall darllen gael effaith sylweddol ar lwyddiant addysgol plant, ac mae annog plant a phobl ifanc i ddarllen yn bwysicach nag erioed.

Yr ail lyfr Cymraeg am £1 i gael ei ysgrifennu a'i gyhoeddi ar gyfer Diwrnod y Llyfr 2020 yw *Darllen gyda Cyw* gan Anni Llŷn, sy'n dilyn hanesion y cymeriad poblogaidd Cyw a'i ffrindiau.

Meddai Angharad Sinclair, Rheolwr Prosiect Hyrwyddo Darllen Cyngor Llyfrau Cymru: "Mae rhannu straeon yn rhan o'n traddodiad unigryw ac roedden ni'n falch iawn o allu gweld hyn ar waith gyda'r plant yn yr Amgueddfa Lechi wrth i ni lansio'r cyntaf o'r llyfrau Cymraeg am £1."

**Diwrnod y Llyfr**

Cafodd Diwrnod y Llyfr ei ddynodi gan UNESCO yn ddathliad byd-eang o lyfrau a darllen, ac mae dros 100 o wledydd ledled y byd yn ei ddathlu. Partneriaeth rhwng cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a grwpiau eraill sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo llyfrau a darllen er budd personol a mwynhad yw Diwrnod y Llyfr. Un o brif amcanion y Diwrnod ym Mhrydain ac Iwerddon yw annog plant i brofi'r pleser a geir wrth ddarllen drwy roi cyfle iddyn nhw gael llyfr eu hunain.

Yng Nghymru, mae'r ymgyrch yn cael ei chydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru a Waterstones. Cynhelir Diwrnod y Llyfr ddydd Iau 5 Mawrth 2020.





**Tŷ Te a Delicatessen**

**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**

# Ysgol Glan Clwyd



**LLOFRUDDIAETH YN Y LLYFRGELL!**
Dyma ymateb rai o aelodau Clwb Darllen Canolfan John Glyn wrth iddynt sylweddoli fod yna lofruddiaeth wedi digwydd ! Roedd rhaid iddynt fynd ati wedyn i ddatrys y dirgelwch i ddarganfod sut y cafodd ei lofruddio, pwy oedd o, a phwy wnaeth, drwy ateb cwestiynau am lyfrau a phosau gwahanol. Pawb wedi mwynhau yn fawr. Ditectifs brwdfrydig iawn.Paratowyd y cyfan gan Elizabeth Stewart Bl 12 mewn cydweithrediad â Mrs Helena Jones, y Llyfrgellydd. Trefnir gwahanol weithgareddau a thrafodaethau am lyfrau yn wythnosol.



**Ymwelydd o Sbaen:**
Grwp bach o ddisgyblion o Flwyddyn 9 gafodd y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai mentora Ieithoedd Tramor Modern gyda Ana Ibanez o Navarra, Sbaen. Mae Ana yn asudio Saesneg ym Mhrifysgol Bangor ac yn arbennig o frwdfrydig wrth sôn am astudio ieithoedd. Roedd Grace Brown, un o'r disgyblion, yn dweud i Ana ei helpu i weld sut mae ieithoedd yn gallu agor drysau o ran profiad personol a gwaith. "Cawsom gyfle i ddysgu ychydig am ieithoedd amrywiol, fel Coreeg a Lladin".



Ar ddiwedd mis Tachwedd aeth nifer o ddisgyblion sy'n astudio Ffrangeg TGAU ar daith i Baris, lle cawson nhw ymweld â nifer o atyniadau ym Mharis fel y Sacre Coeur a tŵr Eiffel. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw.



Mae **Menter Iaith Sir Ddinbych** wedi bod i mewn yn ystod y tymor yn cynnal nifer o weithgareddau yn ystod amser cinio er mwyn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg y disgyblion. Dyma lun o rai o'r disgyblion sydd wedi bod yn mynychu'r Clwb Hwb yr Iaith



**Cyfraniadau at Fanc Bwyd Dyffryn Clwyd**. Unwaith eto eleni diolch i'n disgyblion am gyfrannu gymaint ar gyfer banc bwyd Dyffryn Clwyd. Yn y llun, gwelir rai o'r disgyblion gyda nifer bach o'r bocsus.



**Taith i Lan Llyn**. Bu nifer o ddisgyblion ym ml 8 am dridiau i Lan Llyn ar ddiwedd mis Tachwedd ar gyfer gweithgaredd Gwyddoniaeth a chael hwyl hefyd. Cawsant nifer o weithdai yn trafod y planedau a'r bydysawd o'u cwmpas, ac hefyd cael cymryd rhan yng ngweithgareddau Glan Llyn, megis bowlio deg, wal ddringo, cwrs rhaffau a gweithgareddau ar y llyn.

**Llongyfarchiadau** i Elin Evans (cyn ddisgybl) – mae hi yn y rownd derfynol ar gyfer *British Education Award* – yn y categori Rhagoriaeth Lefel A.

**Llongyfarchiadau** i 2 gyn ddisgybl ar ennill ysgoloriaethau gan Brifysgol Bangor.

· Mali Elwy Williams (Cymraeg) Gwobr y Fonesig Enid Parry ac Ysgoloriaeth Teilyngdod

· Elliw Lois Pierce (Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Chymdeithaseg

Ar dydd Gwener, Rhagfyr 13eg, roedd hi'n ddiwrnod gwisgo siwmper Nadolig. Casglwyd dros £500 tuag at elusen Achub y Plant

**Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ifanc 2019.** Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion oedd yn rhan o lwyddiant CFfI Clwyd wrth iddynt ennill yn Eisteddfod Cymru yn Wrecsam yn ddiweddar. Daeth Owain John bl12 yn ail yn y llefaru, Eban Bl.11 ac Owain John yn gyntaf yn y gân gyfoes, ac enillodd meim Clwb Llannefydd y wobr gyntaf. Roedd llawer iawn o ddisgyblion yn canu gyda Chôr y Sir a ddaeth yn drydydd. Da iawn chi!

## Gwobrwyo Gwirfoddolwyr



Llongyfarchiadau i Gaynor Morgan Rees a Gwyneth Kensler am ennill un o wobrau "Rural Touring" 2019 am eu gwaith yn hyrwyddo Theatr Twm o'r Nant. Fe gawsant eu henwebu gan gynllun Noson Allan Cymru, sy'n noddi llawer o'r perfformiadau proffesiynol a gynhelir yn y Theatr. Mae'r nawdd yn gymorth iddynt fedru cynnal rhaglen amrywiol a chyffrous yno. Dywedodd y ddwy ei bod hi'n sypreis ac yn fraint cael eu henwebu. "Mae cymaint o doriadau yng nghyllido'r celfyddydau, ac rydym yn falch o fedru gwneud yr hyn a allwn i hyrwyddo'r celfyddydau yng Nghymru."
Roedd y beirniaid yn meddwl eu bod "wedi gwneud gwaith aruthrol dros yr ugain mlynedd diwethaf – pobl fel hyn sy'n gwneud i'r byd droi". Dywedodd eu noddwyr fod y ddwy ohonynt wedi gweithio'n ddygn yn sicrhau perfformiadau Cymraeg a Saesneg drwy'r cynllun Noson Allan. Yn y bedair mlynedd ddiwethaf maent wedi hyrwyddo 36 o sioeau (hyd yma) ac mae'n siwr y bydd mwy i ddod.



## THEATR TWM O'R NANT O Ddinbych i Efrog Newydd!!



LLUN
Gyda chaniatâd caredig Chris Noble (LBIPP, LRPS) ffotograffydd swyddogol Gary Edward Jones

Un o fy hoff ganeuon gan unrhyw artist, mewn unrhyw arddull neu iaith ydy "The Sound of Silence" gan y ddeuawd Simon and Garfunkel. Clywais y gân hon am y tro cyntaf yn fy arddegau, ym 1966 mae'n debyg, ar Radio Caroline neu Radio Luxemburg cyn fod sôn am BBC Radio 1 neu 2, na Radio Cymru. Cefais fy swyno gan y melodi a'r geiriau, wedi eu cyfansoddi gan ŵr ifanc o Efrog Newydd, Paul Simon.
Fe gyrhaeddodd y gân hon rhif un yn siartiau'r Unol Daleithiau a dim ond cyrraedd rhif 29 yn y siartiau Prydeinig. Oes rhai ohonoch efallai'n cofio i'r triawd Gwyddelig, y Bachelors, gyrraedd rhif 3 ym Mhrydain gyda'u fersiwn nhw (dim hanner cystal!) o'r gân?
Ar noson rynllyd ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd Theatr Twm o'r Nant yn orlawn i wrando ar y sioe "Something About Simon" wedi ei gyflwyno gan Gary Edward Jones, yn wreiddiol o Lerpwl ond wedi ymgartrefu ger Rhuthun erbyn hyn. Mae'n defnyddio'r theatr i ymarfer yn rheolaidd ac wrth ei fodd efo'r lle. Daeth i amlygrwydd tra'n perfformio'r sioe yn "Fringe" Caeredin. Bu'n canu nifer o ganeuon Simon & Garfunkel megis "America", "The Boxer" a "Bridge Over Troubled Water" cyn symud ymlaen i ganu caneuon o yrfa Paul Simon fel unawdydd, fel "Graceland", "Fifty Ways to Leave Your Lover" a "Wristband". Fel mae'n digwydd, roedd Gary yn un o gyfranwyr i raglen Radio 4 "Soul Music" cyn y Nadolig, yn trafod arwyddocâd personol y gân "The Boxer" iddyn nhw.
Dydy Gary ddim yn ceisio dynwared Paul Simon, ond yn hytrach yn dehongli a rhoi ychydig o gefndir bob cân. Gwnaeth hyn yn hynod effeithiol ac roedd ymateb y gynulleidfa yn dystiolaeth o'u gwerthfawrogiad.
Yn dilyn ei berfformiad yn Ninbych roedd Gary ar ei ffordd i Efrog Newydd i ganu yn yr enwog Soho Playhouse am chwe noson, ac roedd sôn fod Paul Simon ei hun am fod yn bresennol un noson!

*John Davies*

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**

# Diwrnod Hawliau Dynol 2019: Canllaw newydd i'r gyfraith i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi cyhoeddi canllaw newydd i'r gyfraith fydd yn helpu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws maes iechyd, gofal cymdeithasol a diogelu i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

Mae 'Amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru: Canllaw i'r gyfraith', a gyhoeddwyd heddiw, yn cynnwys ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol am ddeddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud â phobl hŷn, yn cynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol, a'r ffyrdd y gellir ei defnyddio i amddiffyn a diogelu pobl hŷn a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'r ganllaw hon hefyd yn cynnwys astudiaethau achos, sy'n seiliedig ar waith achos y Comisiynydd, er mwyn cynnig enghreifftiau ymarferol o fywyd go-iawn o'r ffyrdd y gellir cymhwyso a defnyddio'r gyfraith.

Hwn yw trydydd rhifyn y ganllaw, sydd wedi'i ddiweddaru gan John Williams, Athro Emeritws y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac mae'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth allweddol, ac yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, megis cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae rhifynnau blaenorol o'r ganllaw wedi bod ymysg cyhoeddiadau mwyaf poblogaidd y Comisiynydd ac wedi'u defnyddio'n eang i gefnogi gwaith ymarferwyr gofal cymdeithasol, staff gofal cymdeithasol, staff meddygol, perchnogion cartrefi gofal, cyfreithwyr a myfyrwyr, yn ogystal â gan bobl hŷn a'u teuluoedd sydd eisiau dealltwriaeth gliriach o'r cyfreithiau a luniwyd yn benodol i'w hamddiffyn a'u cefnogi.

Meddai Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

"Mae Diwrnod Hawliau Dynol yn ddigwyddiad pwysig, sy'n ein hatgoffa, waeth beth fo'n hoed, fod gan bob un ohonom hawliau, wedi'u seilio ar ddeddfwriaeth, i'n hamddiffyn a'r rhyddid a gymerwn yn aml yn ganiataol.

"Ond trwy fy ngwaith a fy ymchwil rwyf wedi canfod nad yw tua thraean o bobl hŷn - dros chwarter miliwn o bobl - yn deall eu hawliau, a bod nifer o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn ansicr o'r ffyrdd y gallant ddefnyddio'r gyfraith i amddiffyn a chefnogi pobl hŷn.

"Dyna pam rwy'n cyhoeddi'r fersiwn ddiweddaraf o fy nghanllaw i'r gyfraith, sy'n ceisio helpu ymarferwyr i fod yn fwy ymwybodol o'r gyfraith sydd ar gael i'w cefnogi yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

"Dydy'r ganllaw ddim yn cymryd lle cyngor cyfreithiol ac nid datganiad diffiniol o'r gyfraith mohono, ond mae'n cynnig trosolwg manwl, cyd-destun ac enghreifftiau buddiol o'r ffyrdd y gall ymarferwyr ddefnyddio'r gyfraith, sydd wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

"Hoffwn ddiolch i John Williams, Athro Emeritws y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, am ei holl waith caled yn drafftio'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r ganllaw. Mae ymrwymiad John i hyrwyddo hawliau dynol a diogelu pobl hŷn yn ysbrydoledig, ac mae ei allu i gyfleu cysyniadau cymhleth mewn ffordd syml yn golygu bod hwn yn adnodd gwerthfawr i ymarferwyr.


"Drwy'r ganllaw hon, rwyf eisiau sicrhau bod y gyfraith wedi'i deall mor eang â phosibl ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, bod eu hawliau'n cael eu parchu, a'u bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn."

# Dr Llion Jones yn rhannu syniadau

Fel rhan o brosiect Cymunedau Dwyieithog Sir Ddinbych gan Menter Iaith Sir Ddinbych, cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant am sut i wneud y gorau o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, ddechrau mis Rhagfyr yn Hwb Dinbych.

Daeth Dr Llion Jones o Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor draw i rannu canllawiau a chyngor ar sut i ysgrifennu'n gryno, yn egnïol ac yn fachog yn y Gymraeg er mwyn ysgrifennu'n atyniadol ar gyfer y gynulleidfa darged ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Cafwyd 'tips' ar sut i chwynnu geiriau diangen, defnyddio thesawrws i ddewis geiriau byrrach a defnyddio berfenwau yn lle ansoddeiriau ac yn y blaen, yn ogystal â gwneud defnydd gorau o system Cysgliad ar gyfer cyfrifiaduron.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.




# Sgwrs a Sangria

Dim ond nodyn i'ch atgoffa fod copiau o'r ddau lyfr sydd i'w trafod yn ein cyfarfod nesaf yma yn y Llyfrgell.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar

**Nos Lun, Ionawr 13eg, 2020 am 7.30 y.h. yn y llyfrgell.**

Byddwn yn trafod y llyfrau canlynol:

**Fflur gan Lloyd Jones**

**Babel gan Ifan Morgan Jones**

Criw y Llyfrgell

## Taro'r Post i'r Pared Glywed

" Gadewch o efo fi."
"Ddo i nôl atoch chi."
Oes yna unrhyw beth yn codi'ch gwrychyn chi yn waeth na chlywed y geiriau hyn mewn ymateb i gais neu gŵyn?
Rydach chi'n gwybod yn iawn na fydd yna affliw o ddim yn cael ei wneud am y peth. Caiff y cyfan ei gofnodi'n daclus ym mol y cyfrifiadur ac yn gyfleus ei anghofio.
Does yna neb ar ben arall y ffôn (neu pan alwch chi mewn swyddfa) yn defnyddio'r esgus, " O, rhan amser ydw i a dwi ddim yma weddill yr wythnos. Fe wna i'n siwr bod yr un sydd yn rhannu'r swydd efo fi yn cael eich neges. Dwi'n addo."
Na, rydach chi yn aros am ychydig ddyddiau i rywun ymateb i'ch cais .... a does yna ddim byd yn digwydd. Mae'r dyddiau yn mynd yn wythnos, yr wythnos yn wythnosau, yr wythnosau yn fisoedd, ac rydach chi'n rhoi'r ffidil yn y to.
Mae yna flwyddyn bron ers imi gysylltu â'r Cyngor Sir gan fod yna arwydd ffordd tu allan i'r tŷ acw wedi dod yn rhydd gan fod y pyst oedd yn ei ddal o wedi pydru.
Does yna fawr o enwau prydferthach na Lôn Y Fedwen Arian. Roeddwn i'n teimlo y dylai'r arwydd hwnnw gael ei barchu yn hytrach na bod ar sgiwiff, ac yn destun hwyl a sbri i rywun oedd yn mynnu'i dynnu o'i le a'i symud ychydig lathenni.
Gwn, fe allwn gael gair ag un o'r cynghorwyr lleol am y mater, ond mae ganddyn nhw ddigon o faich fel y mae hi.
Os ydach chi'n talu cyflog i bobl am wneud swydd, yna rydach chi'n disgwyl iddyn nhw ymddwyn yn broffesiynol, sef ymateb i'ch cri.
Rydach chi'n colli'ch limpyn pan nad ydyn nhw'n gwneud hynny, ac yn gobeithio am well ymateb gan rywun sydd wedi siarad â chi yn y Gymraeg.
Ond ar ôl pendroni ymhellach, efallai fy mod yn annheg â'r person hwnnw.
Efallai mai rhywun arall sydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn achosion o'r fath.
Efallai bod rhaid iddyn nhw gynnal cyfarfod tîm - neu is-bwyllgor hyd yn oed - cyn y gallan nhw ddod i benderfyniad mewn achos mor dyngedfennol!
Wedi'r cyfan, mae'n rhaid penderfynu ar drwch a hyd priodol i'r pyst a faint o gymysgedd sydd ei angen ar gyfer eu cynnal nhw. Whiw!
Yr unig beth a wn i ydy' does yna ddim byd o gwbl wedi digwydd, bod yr arwydd yn dal ar osgo, y polion yn pydru'n waeth, ond o leiaf mae o wedi cael llonydd yn ddiweddar gan y person a oedd yn cael mwynhad o'i symud.
Ond cawn weld beth a ddigwydd Nos Galan.
.....................
Gobeithio i chi gael Nadolig dedwydd ac y cewch chi Flwyddyn Newydd lewyrchus, a gobeithio'n fawr iawn i ddau blentyn – y mae'u mam yn gweithio yn y dref hon - gael yr anrhegion yr oedden nhw'n ddymuno.
Darganfyddwr metel oedd o eisiau a hithau eisiau peiriant gwnïo .......a'r ddau ond yn naw a chwech oed.
Dyna wreiddioldeb i chi.
**Stan Lyall**

## Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Fel Cymdeithas rydym wedi derbyn adroddiadau gan ein haelodau sydd yn gynhyrchwyr bwyd, yn nodi bod teimlad nad yw'r BBC yn cynrychioli nac yn adlewyrchu ein cymunedau amaethyddol, ac yn wir, bod adegau amlwg pan nad yw'r holl wir yn cael ei gyfleu.
Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod cyfraniad enfawr y gymuned amaethyddol i gynaladwyedd yr iaith Gymraeg ac i'n diwylliant. Mae'r Gymdeithas hefyd yn nodi pwysigrwydd prynu yn lleol a chynhyrchu yn lleol.
Mae'r Gymdeithas yn galw am ddatganoli darlledu i Gymru er mwyn gallu cael trafodaethau Cymreig, er mwyn gwella democratiaeth yng Nghymru a chredwn fod datganoli darlledu yn hanfodol os yw'r Gymraeg am fyw.
Galwn ar y gymuned amaethyddol i ymuno gyda ni yn yr ymgyrch hon gan ymatal rhag talu ffioedd trwydded teledu. Mae bron i 100 eisioes ar ein rhestr o bobl nad sydd yn talu. Tybed ydy hyn yn opsiwn i chi? Cysylltwch gyda ni am fwy o wybodaeth am yr ymgyrch - 01970 624501.
Yn gywir,

Robat Idris,

Cadeirydd Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
Cymdeithas yr Iaith

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth SY23 2AZ
01970 624501






## Ffigyrau Dilyniant Cadarnhaol Mudiad Meithrin 2018/19

Ar yr ail ddiwrnod o Ŵyl Ein Llais yn y Byd, sef gŵyl a gynhelir gan Brifysgol Aberystwyth sy'n dathlu'r Gymraeg fel iaith hyfyw ymhlith teulu ieithoedd y byd, mae Mudiad Meithrin hefyd yn dathlu cyhoeddi ffigyrau dilyniant i addysg Gymraeg cadarnhaol dros ben.

Eleni, mae Mudiad Meithrin yn falch iawn o gyhoeddi cynnydd yn ei ffigyrau mynychu a dilyniant ers y llynedd, gan gynnwys cynnydd o 112 o blant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin. O ganlyniad, mae yna 11,544 o blant bellach yn mynychu Cylchoedd Meithrin ledled Cymru.


Hefyd, mae'r canran o blant sydd wedi mynd o'r Cylch Meithrin i'r ysgol ac wedi dewis addysg Gymraeg wedi cynyddu 1.7% ers y llynedd. Golyga hyn bod 89.8% o blant wedi parhau eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Un o nodau strategaeth **Cymraeg2050** Llywodraeth Cymru yw cyrraedd 90% o ganran dilyniant i Addysg Gymraeg erbyn 2031 ac mae'n braf nodi bod Mudiad Meithrin ar y trywydd cywir.

Dwedodd Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cadeirydd Mudiad Meithrin:

"*Mae'n braf cydnabod pwysigrwydd gwaith a gweithgarwch Mudiad Meithrin i wireddu strategaeth '**Cymraeg2050**' Llywodraeth Cymru. Mae'r ystadegau yma'n tanlinellu'r ffaith fod y Mudiad ar y trywydd cywir gyda chynnydd yn niferoedd y plant sy'n mynd i Gylchoedd Meithrin a chynnydd yn y ganran o blant sy'n mynd o'r Cylch i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg.*"

Ategodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin, at hyn trwy ddweud:

"*Mae'n arwyddocaol nodi bod 76% o blant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn dod o gartrefi naill ai uniaith Saesneg neu ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).*"




## CORFF GWARCHOD IECHYD YN GOFYN I BOBL I SIARAD AM WASANAETHAU FASGWLAIDD

Mae corff gwarchod gwasanaethau iechyd annibynnol Gogledd Cymru - Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) - yn awyddus i glywed gan bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan rai newidiadau mawr a wnaed ym mis Mawrth eleni i ddarpariaeth Gwasanaethau Fasgwlaidd.

Bydd yr CICGC yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar draws pob un o chwe sir Gogledd Cymru, gan wahodd staff y GIG, cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd i siarad am Wasanaethau Fasgwlaidd. Daeth nifer dda i'r ddau ddigwyddiad cyntaf a gynhaliwyd ym Mhwllheli a Bangor, ac roedd pobl yn falch bod CICGC wedi rhoi'r cyfle iddynt fynegi eu barn.

**Bydd digwyddiadau pellach yn cael eu cynnal ar y dyddiadau a'r lleoliadau canlynol:**

**14 Ionawr 2020 o 11.00 y bore – 1.00 y prynhawn** yn Neuadd Pendre Tywyn, 4 Stryd Brooke, Tywyn, Gwynedd LL36 9DP

**16 Ionawr 2020 o 11.00 y bore – 1.00 y prynhawn** yng Nghanolfan Hamdden Treffynnon, Ffordd y Gogledd, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7TQ

**24 Ionawr 2020 o 10.30 y bore – 12.30 y prynhawn** yn MIND Aberconwy, 3 Sgwar Trinity, Llandudno, Conwy LL30 2PY

**28 Ionawr 2020 o 2.00 y prynhawn – 4.00 y prynhawn** yng Nghlwb Criced Bae Colwyn, 77 Ffordd Penrhyn, Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn, Conwy LL28 4LR

**03 Chwefror 2020 o 11.00 y bore – 1.00 y prynhawn** yn Neuadd Morfa, 141 Stryd y Baddon, Y Rhyl LL18 3EB


**12 Chwefror 2020 o 10.00 y bore - 12.00** yn Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn LL77 7LR

**13 Chwefror 2020 o 11.00 y bore – 1.00 y prynhawn**yn Ty Pawb, Stryd y Farchnad, Wrecsam LL13 8BY

**27 Chwefror 2020 o 11.00 y bore – 1.00 y prynhawn**yn HWB Dinbych, Stryd Smithfield, Dinbych LL16 3RG

**28 Chwefror 2020 o 10.00 y bore - 12:00** yn Neuadd Goffa, 18 Stryd y Farchnad, Amlwch, Ynys Môn LL68 9ET

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Clwb Pél Droed Dinbych

Mae'r tywydd gwlyb wedi amharu ar gynnydd y Tîm Cyntaf yn y gynghrair wedi i ddwy gêm gael eu gohirio o ganlyniad i'r tywydd gwael ar Central Park. Maent wedi disgyn i'r ail safle yn y gynghrair wedi i Holyhead Hotspur fynd ar y brig.

Er hynny, mae'r Clwb wedi cyrraedd rowndiau nesaf Cwpan FAW a Chwpan Cookson gyda dwy fuddugoliaeth wych. Nefyn oedd eu gwrthwynebwyr yng Nghwpan FAW, tîm sydd dwy gynghrair o dan Dinbych. Fe wnaeth Dewi Llion, y rheolwr, waith ymchwil ar eu gwrthwynebwyr ac roedd hynny'n sicr wedi talu ar ei ganfed wedi iddynt ennill 5 -1 gyda thair gôl gan Jake Walker a dwy gan Mark Roberts. Bydd y gêm nesaf yn erbyn Rhos Aelwyd gartref ym mis Ionawr.

Yng Nghwpan Cookson, cafwyd buddugoliaeth o 3-0 yn erbyn Bodedern Athletic gyda goliau gan Mark Roberts, Paul Flemming a Jacob Barratt. Golyga hyn fod Dinbych nawr yn y rownd gynderfynol fydd yn erbyn Dyffryn Nantlle gartref hefyd ym mis Ionawr. Mae'r Ail Dîm wedi chwarae tair gêm yn ystod y mis ac wedi ennill bob un ohonynt sy'n eu rhoi nhw ar frig Cynghrair Lock Stock Ail Dîm Cymru. Gwelwyd gôl anhygoel gan Andy Thomas yn erbyn Bae Colwyn a oedd yn ddigon i sicrhau'r tri phwynt. Buddugoliaeth o 2 -1 oedd y nesaf yn erbyn Llanrug oddi cartref wrth i Ddinbych deithio yno heb gôl-geidwad. Fe wirfoddolodd Thomas i sefyll yn y gôl gan adael dim ond un gôl i mewn a honno'n gic o'r smotyn i Lanrug hefyd. Matty Blake a Matthew Pendleton sgoriodd y ddwy gôl i Ddinbych.

Buddugoliaeth o 7-0 oedd y nesaf yn erbyn Llanelwy un noson lle symudon nhw wedi hynny i frig y gynghrair. Sgoriodd Andy Thomas dair gôl, a dwy gan yr arwyddiad newydd Sion Davies o Lanefydd. Billy Holmes a Josh Jones sgoriodd y ddwy gôl arall i Ddinbych.

Tair gêm i dîm Denbigh Development sydd wedi eu gohirio oherwydd y tywydd gwael yn ddiweddar. Maent wedi chwarae tair gêm gan gynnwys gêm gyfartal yn erbyn Llandudno Amateurs o 2-2, ac fe guron nhw Penmachno United o 3-2 yn y gynghrair. Colli oedd eu hanes yn erbyn Aviva Bangor mewn gêm gwpan o 9-5 a oedd yn gêm anhygoel i'w gwylio. Roedden nhw ar y blaen yn ystod yr hanner cyntaf o 3-0 gyda thair gôl gan Josh Rowlands. Lwyddodd Bangor i wneud hi'n gyfartal eto cyn i Owen Heath ac Alfie Harrison wneud hi'n 5-3 yn ystod y munudau olaf. Fe frifodd Liam Nash y gôl-geidwad ei law cyn y chwiban olaf, ac fe fanteisiodd Bangor ar hynny gyda dwy gôl gan fynd a'r gêm i amser ychwanegol. Sgoriodd Bangor bedair gôl yn ystod yr hanner awr hwnnw ac fe arhosodd Nash yn y gôl er ei boen amlwg. Wedi'r gêm, cafwyd cadarnhad fod Nash wedi torri ei law. Wrth i'r flwyddyn newydd agosáu, hoffai'r Clwb wneud apêl am fwy o wirfoddolwyr. Mae'r Clwb yn cael ei redeg gan grŵp bychan o wirfoddolwyr ac mae galw mawr am fwy o help gyda stiwardiaid, codi arian ac adroddwyr cyfryngau. Mae gwirfoddoli yn ffordd arbennig o helpu'r Clwb, o roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned ac o gyfarfod pobl newydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu, cysylltwch gydag Iwan Jones ar 07788627817 neu Steve Whitfield ar 07787485331.



Sion Jones (ar y chwith) a Billy Holmes (ar y dde) yn ymuno gyda'r dathliadau yn erbyn Bodedern.

# Dinbych Di-Blastig

Bu cyfarfod o'r grwp Dinbych Di-blastig ar ddydd Iau 5ed o Ragfyr. Mae diddordeb yn y grwp dros y misoedd diwethaf ac felly penderfynwyd cyfarfod i drafod cynllun i'r dyfodol. Mae'r grwp yn anelu at hyrwyddo defnydd llai o blastig ac i'r dref gyrraedd statws o Dref Di-Blastig.

Fel grwp mae sawl nod i'w gyrraedd er mwyn ennill y statws o Dref Di-Blastig

1.Gofyn i Gyngor y Dref basio penderfyniad i'n cefnogi yn yr ymgyrch i fod yn gymuned ddi-blastig. Pasiwyd y penderfyniad yn ddiweddar.

2. Mae'r Cyngor Sir yn arwain drwy esiampl ac am stopio'r defnydd o blastig defnydd sengl yn y gweithle

3. Cynnwys busnesau lleol yn yr ymgyrch i dorri lawr ar y defnydd o blastig defnydd sengl

4. Annog grwpiau yn y gymuned i ymwrthod ac o leiaf tri eitem o blastig defnydd sengl

5. Cynyddu ymwybyddiaeth o lygredd plastig, yn yr ysgolion lleol. Mae'r Ysgol Uwchradd wedi gofyn i ni siarad gyda.Chyngor yr Ysgol. Maent eisioes yn bwriadu gostwng eu defnydd o blastig yn yr ysgol.

Byddwn yn trefnu digwyddiadau yn y gymuned, fel glanhau traethau neu afonydd yn ogystal â threfnu cyfarfod arall yn y dyfodol agos, felly dilynwch ni ar Facebook i wybod beth sy'n digwydd.

Mae'n bwysig stopio'r defnydd o blastig defnydd sengl. Mae'r archfarchnadoedd yn defnyddio llawer o blastig defnydd sengl wrth becynnu sawl eitem. Dylem yrru cwyn at yr archfarchnad unigol pan yn dod ar draws gor-ddefnydd o blastig. Mae rhai wedi bod yn casglu plastig pecynnu gan gwsmeriaid wrth iddynt adael y siop ac yna ei yrru'n ôl i'r archfarchnad fel protest.

Mae astudiaethau diweddar wedi dangos fod llygredd plastig wedi effeithio ar 100% o grwbanod y môr. 59% o forfilod, 36% o forloi a 40% o adar môr.

Byddem yn falch o gael eich cefnogaeth i drawsnewid y dref i fod yn Dref Ddi-Blastig a rhwystro cymaint o blastig i lygru ein moroedd a'r amgylchedd

# Clwb Pel-droed Dinbych Cyhoeddiad torcalonnus

Fe dderbyniodd y Clwb newyddion hynod o drist ar ddechrau mis Rhagfyr gyda marwolaeth ein tirmon ffyddlon, Derek Hughes.
Daeth y newyddion fel sioc enfawr i bawb yn y Clwb gan mai dim ond ychydig wythnosau ynghynt roedd o wrthi'n paratoi'r cae yn Central Park, rhywbeth oedd o bob amser yn ei wneud mor ofalus a thrylwyr. Wedi cyfnod byr o salwch, bu farw yn ei gartref yn Llanrhaeadr dan ofal ei deulu annwyl. Bu Derek yn dirmon i'r Clwb am dros 25 mlynedd a bu CPD Dinbych bob amser yn agos at ei galon. Roedd y Clwb yn rhan fawr o'i fywyd, ac roedd yntau'n rhan enfawr o'r Clwb. Fe ddechreuodd ei waith yn Central Park ym 1993/94, ochr yn ochr gyda'i Dad a oedd yn dirmon i ni ar y pryd. Yn ystod ei flynyddoedd o ofalu am y cae, mae o wedi gwella'r arwyneb gymaint nes bod y cae yn cael ei adnabod fel un o gaeau pêl-droed gorau Gogledd Cymru. Bob dydd Gwener, fe dreuliodd y diwrnod yn paratoi'r cae yn ofalus ar gyfer gemau'r penwythnos. Roedd o wrth ei fodd yn clywed sylwadau gan ymwelwyr yn canmol safon y cae.
Yn 14 oed, fe ddechreuodd Derek chwarae pêl-droed i Lanrhaeadr yng Nghynghrair yr Haf. Daeth yn gôl-geidwad penigamp ac fe chwaraeodd i Ddinbych ar ddau gyfnod gwahanol. Er hynny, fe ddywedodd fod o ar ei orau yn ei yrfa pêl-droed fel gôl-geidwad pan chwaraeodd i Dîm Ysbyty Gogledd Cymru am ddeg mlynedd. Fe gafodd o bedair blynedd arall yn Llanrhaeadr cyn ymddeol fel gôl-geidwad. Oddi ar y cae, roedd ganddo yrfa fel weldiwr, ac fe ddefnyddiodd y sgiliau hynny o amgylch Central Park. Wrth gerdded o amgylch y maes, mae tystiolaeth o waith Derek i'w weld ym mhobman a bydd colled enfawr ar ei ôl. Ychydig fisoedd yn ôl, fe ofynnom ni iddo beth oedd rhai o'i uchafbwyntiau yn ystod ei amser gyda'r Clwb. Dywedodd, "Dw i wedi gweld llawer yma, ond y pedwar prif uchafbwynt i mi dros y blynyddoedd diweddar yw; gweld y llifoleuadau 6n cael eu goleuo am y tro cyntaf; ennill Cynghrair Cymru yma yn erbyn Treffynnon yn 2014 ar ôl peidio colli'r un gêm y tymor hwnnw. Yr awyrgylch orau i mi weld yma oedd gêm gynderfynol Cwpan Word pan gurom ni Gap Cei Connah i gyrraedd y ffeinal. Ac wrth gwrs, y ffeinal ei hun yn erbyn TNS ym mis Ionawr 2016. Roedd y gêm yn fyw ar y teledu o Landudno ac roedd gymaint o gefnogaeth i'r Clwb, roedd o wir yn arbennig. Gwych!"
Mae ein dyled i Derek yn enfawr am ei holl waith caled dros y blynyddoedd. Rydym wedi colli cyfaill annwyl ac aelod mor ffyddlon o'r Clwb. Anfonwn ein cydymdeimladau at ei fab, Matthew, ei ferched, Sheila a Carol, ei frawd, Pete, a phob aelod arall o'i deulu a'i ffrindiau yn ystod y cyfnod trist hwn. Dywedodd Stephen Whitfield, ysgrifennydd y Clwb, "Fydd y lle ddim yr un fath heb Derek o gwmpas Central Park. Roedd ei gar bob amser wedi ei barcio tu allan i'r maes ar brynhawn Gwener, ac roedd bob amser sgwrs ddiddorol i'w gael gyda fo. Bydd colled enfawr ar ei ôl ac alla i ddim credu na fydd o yno eto. Mae wir yn dorcalonnus."
Fe ychwanegodd Shon Powell, Cadeirydd y Clwb, "Ar ôl clywed am y newyddion ofnadwy, rydyn ni gyd wedi colli ffrind a chyfaill hynod o annwyl. Bydd pawb yn ei fethu. Mae'n anodd dychmygu sut wnawn ni ymdopi hebddo, ac yntau wedi bod yn gymaint o ran o ddatblygiadau'r Clwb dros y blynyddoedd."

Cafwyd munud o dawelwch er cof am Derek cyn gêm yr Ail Dîm oddi cartref yn erbyn Llanelwy a gêm y Tîm Cyntaf yn erbyn Bodedern Athletic.



Derek Hughes yn paratoi Central Park ar ddechrau'r tymor






# CLWB RYGBI DINBYCH

Dod yn ôl yn waglaw o Ynys Môn, heb hyd yn oed pwynt bonws, wnaeth y Tîm Cyntaf, wedi colli o 32-20 yn erbyn Llangefni. Cyfrannodd Gruff Roberts bymtheg pwynt drwy un cais, dau drosiad a dau gic gosb, gyda Kieran Bonar yn croesi am y cais arall. Cyn y gêm rhwng y ddau dîm ar Gaeau Les Phillips, roedd Carnarfon un safle'n uwch na Dinbych, gyda mantais o un pwynt yn unig, ond canlyniad siomedig arall oedd hi i'r tîm cartref, gyda'r Cofis yn ennill o 27-19. Croesodd Huw Mars-Jones y llinell ddwyaith i Ddinbych, gyda Harry Collins yn sgorio trydydd cais a Gruff Roberts yn trosi dau gais.

Yn dilyn eu canlyniad campus yn erbyn Tîm Cyntaf Ger yr Efail (Forgeside) yn Nhorfaen, roedd gan yr Ail Dîm gêm Gynghrair gartref yn erbyn Ail Dîm Yr Wyddgrug, ac unwaith eto cafwyd buddugoliaeth, o 21-3, gyda chais yr un i Llion Edwards, Callum Taylor a James Tilley, bu hefyd yn llwyddiannus gyda dau drosiad. Neville Hughes gafodd y trydydd trosiad. Daeth rhediad campus y tîm yng Nghystadleuaeth Tarian Undeb Rygbi Cymru i ben yn erbyn Tîm Cyntaf Pontardawe, sy'n chwarae yn Adran 3 Gorllewin Canol Cymru. Yr ymwelwyr gariodd y dydd o 30-7, gyda'r bytholwyrdd Roger Clayton yn sgorio unig gais Dinbych.

Chwaraeodd y timau Dan 14 a Dan 9 yn erbyn Nant Conwy, gyda'r Dan 14 yn colli o 31-19 a'r Dan 9 yn sicrhau gêm gyfartal o 7-7. Collodd y Dan 13 o 48-12 yn erbyn Pwllheli cyn cael gwell hwyl arni yn erbyn Croesoswallt, gan ennill o 41-19.

*John Davies*

**RHYBUDD**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF National Independent Funeral Directors

CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS
Yn cyflwyno Amser i Siarad ....
**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**
NID OES ANGEN ARCHEBU LLE
**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**
**Neuadd Gymunedol Llys Erw Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**
**Canolfan Gymunedol Eirianfa Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**
**Canolfan Gymunedol Awelon Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**
Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar **01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)**
**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

sir ddinbych denbighshire Cymraeg
Yn gweithio i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

**CATalyst Systems - 01745 816611**
**enquiries@catsystems.co.uk**
**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**



Y Maer Cynghorydd Gaynor Tickle yn troi goleuadau'r dref ymlaen



Ysgol Pendref



Ysgol Uwchradd Dinbych



Ysgol Santes Ffraid



Rhys Tomos a Lili  Wood yn helpu Sion Corn



Canu carolau tu allan i'r neuadd ac o amgylch y goeden Nadolig





